



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD RHITHWIR
O GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**VIRTUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

ar

on

**DYDD MAWRTH
9 MAWRTH 2021
am 2.00 o'r gloch**

**TUESDAY
9 MARCH 2021
at 2.00 pm**

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft o'r cyfarfodydd Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 8 Rhagfyr 2020
- 2 Chwefror 2021 (Arbennig)

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3. **I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD.**

I gyflwyno rhybudd o'r cwestiwn canlynol gan y Cynghorydd Robert Ll Jones i Arweinydd y Cyngor:-

"Rydym bellach yn gweld gostyngiad sylweddol yn y traffig nwyddau sy'n mynd a dod i Ddilyn drwy Borthladd Caergybi.

Mae nifer o wahanol resymau yn cael eu rhoi am hyn ac mae'n rhaid i ni fel Cyngor Sir fod yn bryderus a chael ein gweld i fod yn gwneud popeth y gallwn er mwyn cefnogi'r ddau gwmni llongau a'u gweithlu.

Allwch chi hysbysu'r Llongwyr lleol a thrigolion Caergybi ac Ynys Môn beth yn union yr ydym ni fel Cyngor wedi ei wneud er mwyn ymgysylltu â'n Haelod Cynulliad a'n Aelod Seneddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl er mwyn helpu ein porthladd i gynyddu'r llif traffig drwy Gaergybi.

Mae hon yn sefyllfa ddifrifol iawn a does dim amheuaeth bod Gweithredwyr Porthladdoedd eraill yn y DU a Ffrainc yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod ein traffig yn mynd trwy eu porthladdoedd nhw a bydd eu hawdurdodau lleol nhw yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w hannog nhw i wneud hynny."

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

6. **RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD**

I dderbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Robert Ll Jones:-

“Mae dyletswydd ar ein Cyngor i gadw at Ddatganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau Oedran Gyfeillgar yn Ewrop 2013 er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o bobl hŷn yn y gymuned ac i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu gweithredu arnynt a’u bod yn cael cyfle i rywun wrando arnynt. Mae gan Ynys Môn un o’r poblogaethau hŷn mwyaf yng Nghymru ac mae eu cyfraniad i economi Ynys Môn yn bwysig iawn.

Mae gennym Fforwm Pobl Hŷn ar Ynys Môn ac nid ydynt erioed wedi derbyn cyflwyniad gan yr Adran Economaidd na’r Adran Gynllunio ar ddatblygiadau mawr megis Wylfa, Coedwig Penrhos, y datblygiad mawr ym Marina Caergybi na datblygiad Tŷ Mawr yn Llanfair PG.

Rwy’n gofyn bod hyn yn cael ei wneud yn rhywbeth gorfodol a bod cyflwyniad yn cael ei roi ar bob datblygiad mawr er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed pan ddaw hi at benderfyniadau am fannau agored a’r posibilrwydd o ddinistr amgylcheddol.

Mae manau agored a manau cerdded yn ein trefi a chefn gwlad mor bwysig i ni gyd ond yn enwedig i’n trigolion oedrannus ac anabl”.

7. RHEOLI TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2020/21

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr 2020.

8. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021.

9. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 I 2023/24

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021.

10. CYLLIDEB 2021/22

(a) Y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chyllideb 2021/22

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021.

(b) Cyllideb Gyfalaf 2021/22

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021.

(c) Gosod y Dreth Gyngor 2021/22

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar

1 Mawrth 2021.

(d) Diwygio'r Gyllideb

Derbyn y diwygiadau canlynol i'r Gyllideb, y mae rhybudd ohonynt wedi ei dderbyn o dan Baragraff 4.3.2.2.11 o'r Cyfansoddiad.

Y Cynghorydd Bryan Owen, ar ran Plaid Annibynwyr Ynys Môn, i gynnig bod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cael ei bennu ar 2% gyda'r diwygiadau a ganlyn i'r Gyllideb:

- £150,000 i ddod allan o'r Parc Eco (Parc Adfer) sydd ag oddeutu £911,000 yn y cyfrif ar hyn o bryd.
- £75,000 o'r cyllid ar gyfer Wylfa, sydd yn oddeutu £675,000 rhwng 3 chyfrif.
- £75,000 o'r gronfa wrth gefn sydd ag oddeutu £365,000 yn y cyfrif.

Byddai hyn, gyda'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn darparu'r £308,000 y byddai ei angen fel y gellir pennu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar 2% am y flwyddyn 2021/22.

(Nodyn: Mae angen ystyried yr holl bapurau uchod fel un pecyn).

11. **AELOD LLEYG NEWYDD AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Chwefror 2021.
12. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.
13. **DATGANIAD POLISI TÂL 2021**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.
14. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.